Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanedi
# Heol Ebeneser
# Llanedi
# Pontarddulais
# SA4 1YT

**Dyddiad yr arolygiad: 18 - 19 Ionawr 2011**

**gan**

**Dr David Gareth Evans**

**Arolygydd Cofnodol, o dan gontract i Estyn**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd a Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod yr hawlfraint yn y deunydd fel y dywedwyd uchod a rhaid nodi teitl yr adroddiad.**

## Cyd-destun

Ysgol gymunedol, wledig yw Ysgol Gynradd Llanedi a leolir ym mhentref Llanedi tua phum milltir i'r de o Rydaman a thair milltir i'r gogledd o Bontarddulais, mewn ardal sy'n bennaf yn Gymraeg ei hiaith. Mae hi'n ysgol fach, gyda dau athro yn unig, ar gyfer disgyblion 4-11 mlwydd oed. Ar hyn o bryd, mae 28 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae'r nifer ar y gofrestr wedi gostwng ers yr arolwg diwethaf. Mae 10 o blant yn y Cyfnod Sylfaen a cheir 18 yng nghyfnod allweddol 2 (CA2). Nid oes dosbarth meithrin yn yr ysgol ac mae'r plant yn dechrau yn yr ysgol yn ystod y tymor y cânt eu pen-blwydd yn bedair oed.

Lleiafrif yn unig o blant sy'n mynychu'r ysgol ddaw o ddalgylch yr ysgol, a daw llawer o ddisgyblion o du allan y dalgylch. Daw bron pob un o'r plant o gartrefi lle mae Saesneg yn iaith y cartref a dysgir Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol.

Ar hyn o bryd mae pump o ddisgyblion gydag anghenion addysgol arbennig (AAA), gan gynnwys un sydd â datganiad. Cynrychiola hyn 17.8 y cant o boblogaeth yr ysgol, ffigwr sydd yn is na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Mae oddeutu 8.9 y cant â'r hawl i dderbyn prydau bwyd am ddim, sydd yn llawer is na'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol.

Mae dau athro yn yr ysgol, ac mae un ohonynt wedi gweithredu fel pennaeth dros dro ers mis Ionawr 2009.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2005.

Cyllideb yr ysgol ar gyfer pob disgybl yn 2010-2011 yw £4495 ac mae hyn yn cymharu ag uchafswm o £17415 a lleiafswm o £3014 ar gyfer ysgolion cynradd yn sir Gaerfyrddin. Mae'r gyllideb hon ar gyfer pob disgybl yn gosod yr ysgol ar safle 23 allan o 114 ysgolion cynradd yn sir Gaerfyrddin.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- bod  nifer o ddisgyblion yn cyflawni safonau da;
- bod yr addysgu yn dda yn gyffredinol ar draws yr ysgol;
- bod pob un o'r disgyblion yn teimlo'n saff ac yn ddiogel mewn awyrgylch gofalgar a chefnogol;
- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda; a
- bod cysylltiadau cryf gyda'r gymuned leol, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn i'r disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon cyffredinol gwella yn ddigonol oherwydd:

- bod ansicrwydd ynglŷn â sefyllfa'r pennaeth gweithredol ac nid yw'r broses hunan-arfarnu wedi ei wreiddio'n llawn;
- nad yw'r cysylltiadau rhwng hunan-arfarnu a gwella ysgol yn gyson glir;
- nad yw cyd-drefniant pynciau yn gwbl effeithiol;
- nad yw'r cynllun datblygu ysgol (CDY) yn ffocysu'n ddigonol ar wella deilliannau dysgu'r disgyblion; a
- nad yw disgyblion galluog a thalentog yn cael eu herio'n ddigonol yn y gwersi.

## Argymhellion

Er mwyn gwella , mae angen i'r ysgol:

A1 gwella safonau yn y Gymraeg ail iaith yn CA2;

A2 herio disgyblion galluog a thalentog yn fwy er mwyn cyflawni safonau uwch;

A3 gwella ansawdd medrau ysgrifennu a sgiliau cyflwyno disgyblion ar draws yr ysgol;

A4 gwella ymhellach y defnydd o asesu i gyfeirio dysgu'r disgyblion; a

A5 mireinio cynllunio gwella ysgol fel ei fod yn cysylltu'n fwy clir â hunan-arfarnu ac yn ffocysu'n agosach ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd Ysgol Llanedi yn cynllunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yr ysgol yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Monitrir y cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion gan Estyn

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Daw llawer o ddisgyblion i'r ysgol gyda sgiliau yn is na'r rhai a ddisgwylir yn arferol gan rhai o'u hoedran. Ar draws yr ysgol, gwna llawer o ddisgyblion gynnydd da yn eu dysgu a chyflawnant yn dda mewn gwaith ar draws y cwricwlwm.

Oherwydd nifer bach iawn y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, rhaid trin asesiadau athrawon yn ofalus iawn gan y gall canlyniadau un disgybl gael effaith arwyddocaol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, roedd perfformiad disgyblion yn saith mlwydd oed yn asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol 1 (CA1) yn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pynciau craidd (DPC), sef canran y disgyblion sy'n ennill o leiaf lefel dau mewn cyfuniad o'r tri phwnc craidd, yn amrywio'n sylweddol o'u cymharu a chyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Yn 2010 yn CA1, o'u cymharu â chenedlaethol, lleol ac ysgolion tebyg, roedd canlyniadau yn Saesneg a mathemateg ymhlith y 25 y cant isaf o ysgolion, tra bod y rhai mewn gwyddoniaeth yn y 25 y cant

uchaf. Dengys hyn duedd tuag i lawr ers 2008/9. Mae bechgyn wedi perfformio'n well na 'r merched yn y tri phwnc craidd ac yn y DPC mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf. Ni chafwyd lefel 3 yn Saesneg a gwyddoniaeth yn 2008 na 2009, ond roedd cyfartaledd disgyblion enillodd lefel 3 yn y tri phwnc craidd yn 2010 yn uwch na chyfartaleddau tebyg.

Yn ystod y cyfnod 2007-2010, roedd cyflawniad disgyblion CA2 yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ac yn y DPC yn gyson yn uchel ac yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol, lleol a thebyg. Ni fu gwahaniaethau arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched dros y blynyddoedd diwethaf. O 2008 cynyddodd canran y disgyblion enillodd y radd 5 uwch yn Saesneg ac roedd yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol a thebyg yn 2010; mewn mathemateg gostyngodd o 2008 a chynyddodd yn 2010; tra mewn gwyddoniaeth gostyngodd yn arw yn 2009 ac roedd yn is na'r cyfartaledd yn 2010.

Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai gydag AAA, yn gwneud cynnydd da o'u cymharu â'u pwyntiau cychwynnol, galluoedd a'u diddordebau. Cyfathrebant yn glir a gwrando'n astud. Darllenant yn rhugl mewn gwahanol gyd-destunau a gyda dealltwriaeth. Fodd bynnag, nid yw sgiliau ysgrifennu estynedig disgyblion wedi eu datblygu cystal ac mae lleiafrif yn cyflwyno eu gwaith yn anghymen.

Nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol gyda medrau iaith Gymraeg, ond mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd da fel yr ânt trwy'r ysgol. Mae defnydd y rhan fwyaf o sgiliau niferedd ar draws y cwricwlwm yn dda ac mae llawer yn datblygu eu sgiliau datrys problemau a gwneud penderfyniadau yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn gwenud defnydd cynyddol dda o amrywiaeth o sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

**Lles: Da**

Mae pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn teimlo eu bod ynghlwm â gweithgareddau'r ysgol yn llwyr. Meddant agwedd bositif tuag at gadw'n ddiogel ac iach a deallant yr angen i ymarfer ac i fwyta'n iach.

Medda'r rhan fwyaf o'r disgyblion agwedd bositif tuag at yr ysgol, maent yn frwdfrydig gan arddangos diddordeb mawr mewn dysgu. Mae lleiafrif yn ymwybodol pa mor dda maent yn cyflawni a pha gamau sy'n angenrheidiol iddynt eu cymryd i wella eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda tu fewn ac o gwmpas yr ysgol a dangosant barch i eraill. Maent yn gwrtais ac yn creu perthynas dda rhyngddynt eu hunain a gydag oedolion. Mynega'r rhan fwyaf falchder o'u hysgol.

Mae graddfa presenoldeb disgyblion, sef 92 y cant dros y blynyddoedd diwethaf, yn ddigonol o'u cymharu â graddau ysgolion yn genedlaethol ac yn lleol ac mae trefniadau yn bodoli i wella'r raddfa yma. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon ar ddechrau'r dydd ac i wersi.

Mae gan aelodau o gyngor yr ysgol a'r cyngor eco gyfrifoldebau clir a gwnânt gyfraniad gwerthfawr i fywyd yr ysgol . Medda'r aelodau ddealltwriaeth dda o'u rôl.

Maent ynghlwm â gwneud penderfyniadau ac maent yn gwneud cyfraniad buddiol at wella amgylchfyd yr ysgol.

Mae ymglymiad disgyblion â'r gymuned yn un o gryfderau'r ysgol. Mae nifer wedi bod yn ymwneud yn weithredol â nifer o brosiectau'r gymuned leol ac wedi casglu arian ar gyfer achosion da.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Caiff y disgyblion gyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn amrediad o waith amrywiol a phriodol . Trefnir y gwaith yn gyffredinol yn dda i gydweddu ag oedran, anghenion a gallu'r disgyblion, yn cynnwys rhaglenni ar gyfer disgyblion gydag AAA.

Adeiladir yn gynyddol ar wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau presennol disgyblion fel y symudant trwy'r ysgol.. Darpara cynlluniau cwricwlaidd gyfleoedd da ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, niferedd a TGCh disgyblion. Mae'r cardiau medrau a arddangosir yn arf defnyddiol i godi proffil medrau ymhob ystafell ddosbarth. Cynorthwya'r rhaglenni i ddatblygu medrau meddwl a gwerthoedd y disgyblion i gwestiynu, ystyried dewisiadau eraill ac i greu atebion eu hunain. Cafodd y rhaglenni hyn effaith bositif ar ymddygiad disgyblion a'u hagwedd tuag at ddysgu.

Cynigia'r ysgol ddarpariaeth briodol ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig. Defnyddia'r rhan fwyaf o oedolion y Gymraeg yn effeithiol o amgylch yr ysgol ac mae hyn yn cyfoethogi'r cynnydd a wna'r disgyblion. Darpara'r staff gyfleoedd priodol i'r disgyblion i ddysgu am eu milltir sgwâr a hanes a diwylliant Cymru.

Trwy gyfrwng testunau a phrosiectau ysgol, hyrwydda'r ysgol yn effeithiol ddealltwriaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang. Dengys yr ysgol ofal a phryder am bobl mewn rhannau eraill o'r byd ac mae noddi plentyn o'r Philippines yn enghraifft dda iawn o hyn.

**Addysgu: Da**

Defnyddia athrawon amrediad o ddulliau addysgu ac amrywiaeth o adnoddau er mwyn ymrwymo disgyblion i ddysgu. Cyflwynant sesiynau mewn arddull fywiog a chlir a threfnant weithgareddau priodol ar gyfer grwpiau. Atgyfnerthant iaith yn gyson ac effeithiol gan ofyn cwestiynau ystyriol a heriol. Defnyddiant amrediad o dechnegau i sicrhau bod disgyblion yn deall ac yn gwenud cynnydd. Talir sylw priodol i'r disgyblion llai galluog wrth iddynt ymgymryd â thasgau, ond ni chydweddir gwaith yn gyson i anghenion dysgu y disgyblion mwyaf galluog a thalentog. Derbynia staff cynorthwyol gyfarwyddyd da a gweithiant yn effeithiol ochr yn ochr ag athrawon yn y dosbarthiadau.

Yn gyffredinol, mae trefniadau asesu'r ysgol yn ddigonol. Caiff cynnydd disgyblion ei fonitro a'i dracio yn rheolaidd gan athrawon. Fel canlyniad, mae athrawon yn adnabod gallu a chynnydd y mwyafrif o grwpiau o ddisgyblion yn briodol. Fodd bynnag, ni wnânt bob amser ddefnydd effeithiol o asesu i gynllunio a thargedu cymorth ychwanegol i grwpiau penodol o ddisgyblion ac, yn enwedig, i'r disgyblion mwy galluog.

Mae athrawon yn gosod targedau ar gyfer pob disgybl unigol ac yn eu hadolygu pob tymor. Fodd bynnag, ni ŵyr llawer fach o ddisgyblion ym mha ardaloedd mae angen iddynt ddatblygu. Er ceir enghreifftiau o strategaethau asesu ar gyfer dysgu, ni chawsant amser i ddatblygu'n llawn. Yn gyffredinol, mae marcio'r gwaith yn bositif ac yn annog y disgyblion i wella. Mae strategaethau cymheiriaid a hunanasesu yn y cyfnod cynnar o'u datblygu. Er ceir portffolios defnyddiol o waith mewn mathemateg a gwyddoniaeth, nid oes portffolio o waith wedi ei asesu yn Saesneg nac mewn amryw bwnc arall.

Darpara adroddiadau blynyddol i rieni a gwarcheidwaid wybodaeth dda am gyflawniad a lles eu plant. Cynnwys yr adroddiadau dargedau priodol ar gyfer gwella i ddisgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar ble y rhydd staff flaenoriaeth uchel ar les disgyblion. Mae trefniadau positif ar gael i gefnogi iechyd a lles disgyblion ac i hybu eu hymglymiad i holl weithgareddau'r ysgol.

Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae'r berthynas rhwng staff a disgyblion yn dda ac fe ddywed y rhieni eu bod yn hapus iawn gyda'r gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd a ddarperir ar gyfer eu plant.

Ceir cyfundrefnau gwrth-fwlio effeithiol ac mae'r ysgol yn hybu ymddygiad da yn llwyddiannus trwy gyfrwng ei pholisïau a'i gweithdrefnau. Ceir darpariaeth effeithiol ar gyfer cefnogaeth bersonol ac arbenigol.. Mae trefniadau anwytho ar gyfer disgyblion newydd yn dda ac mae disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym ac yn hapus yn yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion gydag AAA yn dda.. Caiff y gefnogaeth sydd wedi ei thargedu yn dda effaith bositif ar eu cynnydd. Mae cynlluniau addysgol unigol disgyblion yn briodol, a chânt eu hadolygu a'u cyfddyddio'n rheolaidd mewn ymgynghoriad â'r rhieni.

Medda'r ysgol bolisïau a gweithdrenau priodol ar gyfer diogelwch.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Medda'r ysgol ethos positif sy'n annog y disgyblion i gyd i drin eraill yn deg a gyda pharch. Mae gan bob disgybl fynediad cyfartal i bob ardal o ddarpariaeth yr ysgol a dywed y disgyblion y cânt eu trin yn gyfartal. Mae'r ysgol yn dathlu amrywiaeth cymuned lawn yr ysgol yn llwyddiannus. Mae arddangosfeydd deniadol yn yr ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd cymunedol yr ysgol yn dathlu llwyddiannau'r

disgyblion. Mae amrediad priodol o adnoddau yn cefnogi anghenion dysgu'r disgyblion yn dda. Mae adeilad yr ysgol yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda ac fe ddefnyddir yr ardaloedd allanol helaeth yn dda gan yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Ers iddi gael ei phenodi mae'r pennaeth gweithredol wedi darparu synnwyr clir o gyfeiriad i fywyd a gwaith yr ysgol. Cynhyrchodd yn llwyddiannus ymdeimlad a rennir o bwrpas a chymhelliant ymysg staff ac fe greodd gysylltiadau cryf gyda disgyblion a'u teuluoedd.

Cefnogir y pennaeth gweithredol yn dda gan staff sy'n cymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau. Canfyddir yn gywir bod ethos cryf o gydweithio agos fel tîm yn un o gryfderau'r ysgol. Mae llinellau cyfathrebu yn dda a chaniatâ hyn i waith dydd i ddydd yr ysgol i fynd rhagddo'n rhwydd.

Teimla aelodau o staff y cânt eu gwerthfawrogi ac mae gan bob un ohonynt gyfrifoldebau penodol ar gyfer datblygu mentrau amrywiol. Mae'r rhain yn dechrau cael effaith bositif ar yr ysgol fel cymuned ddysgu. Fodd bynnag, mae prosesau hunan-arfarnu a chydlynu pynciau grymus ond newydd eu gwreiddio ac nid ydynt eto wedi cael effaith llawn ar safonau a darpariaeth.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Adlewyrchir hyn yn y paratoadau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ar gefnogaeth barhaus i ddatblygu medrau llythrennedd a niferedd disgyblion. Mae'r bwrdd llywodraethol yn cyflawni ei goblygiadau statudol yn llawn. O dan arweiniad cadeirydd profiadol, mae'r llywodraethwyr yn rhannu synnwyr o gyfeiriad y pennaeth gweithredol ar gyfer yr ysgol. Cefnogant yr ysgol yn gydwybodol ac yn gyffredinol gwyddant am berfformiad disgyblion. Gwyddant hefyd am y mentrau a ddatblygir gan yr ysgol ac maent yn dechrau ymwneud mwy â phroses hunan-arfarnu'r ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Er bod y pennaeth gweithredol wedi cyflwyno nifer o fentrau newydd addawol, nid ydynt hyd yn hyn wedi cael amser i wreiddio yn yr ysgol ac mae diwylliant effeithiol o hunan-arfarnu mewn cyfnod cynnar o ddatblygiad.

Mae'r pennaeth gweithredol yn weithgar yn hybu llywodraethwyr, staff , disgyblion a rhieni i gyfrannu at fywyd yr ysgol. Creodd hyn berthynas gydweithio dda ac ymglymiad i wella safonau.

Mae'r broses hunan-arfarnu yn dechrau datblygu'n rhan reolaidd o waith yr ysgol ac ynghyd â deilliannau rheoli perfformiad, i ddarparu amrediad o wybodaeth mewn nifer o ardaloedd. Fodd bynnag, nid yw'n ystyried yn ddigonol dystiolaeth o lygaid y

ffynnon, fel arsylwadau o ddysgu ac addysgu. Dynododd yr ysgol nifer o ardaloedd ar gyfer gwella, ond ni flaenoriaethir y rhain bob amser.

Ni cheir cynllun systematig, grymus sy'n ffocysu yn glir ar wella safonau ac nid yw deilliannau hunan-arfarnu yn effeithiol yn trwytho blaenoriaethau priodol ar gyfer y CDY.

Mae athrawon ynghlwm â nifer o rwydweithiau o ymarfer proffesiynol, gan gynnwys cyfarfodydd rhwng grwpiau penaethiaid lleol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos gyda rheini ac mae'n gweithio'n dda gyda'r gymuned trwy gyfrwng cyrff fel Cyfeillion yr Ysgol. Gwna rhieni ac ymwelwyr o'r gymuned gyfraniad positif i gyfoethogi profiadau'r disgyblion. Gweithia'r athrawon yn dda gydag ysgolion eraill o fewn y teulu lleol.

Mae cynlluniau pontio yn galluogi plant hŷn i baratoi yn briodol ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r bartneriaeth hon yn annog cysylltiadau cwricwlaidd a bugeiliol llwyddiannus. Mae'r clwstwr o ysgolion yn datblygu cyfundrefnau priodol ar gyfer cymedroli a safoni gwaith disgyblion yn y pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gyda phartneriaid i gynllunio a chyfuno adnoddau, yn enwedig gydag ysgolion y clwstwr. Mae'r ysgol yn elwa o gysylltiadau sefydledig gydag athrofeydd addysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllideb yn briodol. Ceir amrediad eang a phriodol o adnoddau dysgu a nifer digonol o athrawon cymwysedig a staff cefnogi. Lleola'r ysgol ei staff cefnogi yn effeithiol. Mae un athro yn darparu cyflenwi ar gyfer athrawon eraill i'w galluogi i ymgymryd â dyrannu statudol amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) a chaiff hyn effaith positif ar ansawdd y cynllunio. Mae'r ysgol yn dynodi ac yn cwrdd ag anghenion staff trwy gyfrwng gweithdrefnau arfarnu a rheoli perfformiad rheolaidd. Mae'r ysgol yn dynodi ac yn dyrannu adnoddau priodol er mwyn adlewyrchu ei nodau a'i thargedau. Rheolir adnoddau a ddyrennir i'r ysgol yn dda a gwnaiff yr ysgol ddefnydd da o'r cyllid a dderbynia.

Oherwydd y deilliannau a gyflawnir gan lawer o ddisgyblion, ansawdd yr addysgu, safon y gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd a ddarperir a'r rheolaeth briodol o'r gyllideb, mae'r ysgol yn gyffredinol yn cynnig gwerth da am arian

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Llenwodd nifer o'r rhieni'r holiadur a mynychodd 15 y cyfarfod i rieni. Yn gyffredinol, datgana'r rhieni farn gadarnhaol iawn am yr ysgol. Credant fod eu plant yn hapus ac wedi ymgartrefu ac yn gwneud cynnydd da. Dwedant fod eu plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod y staff yn hawdd mynd atynt pan fo ganddynt bryderon neu gwestiynau. Teimla'r rhieni y cânt wybodaeth dda am gyflawniad eu plant trwy gyfarfodydd rheolaidd gydag athrawon ac adroddiad diwedd blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf yn gwybod y trefniadau parthed sut i gwyno a theimlant fod eu plant yn derbyn digon o gefnogaeth ychwanegol gyda'u hanghenion dysgu unigol.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Dywed disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac y gwyddant at bwy i droi os ydynt angen cymorth. Meddyliant fod athrawon yn rhoi cefnogaeth dda iddynt ac yn darparu digon o gyfleoedd i ddatblygu ffordd o fyw iachus. Nid yw nifer fach o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda gyda bwlio ac mae nifer fach yn teimlo nad yw disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod amser chwarae ac amser cinio. Teimla lleiafrif bod ymddygiad lleiafrif yn amharu ar ei gallu i wneud eu gwaith.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dr David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Jan Marsden | Arolygydd Tîm |
| Mrs Deris Williams | Arolygydd Lleyg |
| Mr Ceri Emanuel | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Vanessa Roberts | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |